**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Rhagfyr 2019

Annwyl Mick,

Mae'r llythyr hwn i'ch hysbysu fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer *Rheoliadau Deddf Peilota 1987 (Diwygio) 2019*, fel sy'n ofynnol gan Orchymyn Sefydlog 30A (OS30A).

Cafodd yr OS ei wneud ar y 4ydd Hydref yn dilyn penderfyniad gan yr Adran Drafnidiaeth i wahanu'r darpariaethau ar gyfer yr OS blaenorol oedd yn gysylltiedig ag Ymadael â'r UE, ar y sail bod y darpariaethau gyda'r rheoliadau yn ddibynnol ar adran 2(2) Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972. Roedd Adran 2(2) yn destun diddymiad ar y dyddiad y bwriadwyd Ymadael ar y 31ain Hydref. Cafodd ei wneud o dan benderfyniad negyddol a rhagwelir y bydd y cyfnod gwrthwynebu yn dod i ben ddechrau Ionawr.

Ni chafodd Llywodraeth Cymru eu hysbysu o'r datblygiad hwn tan wedi i'r penderfyniad i lunio yr OS ei wneud. Nod yr OS hwn oedd i ddiweddaru y diffiniad o 'Gwladwriaeth AEE' yn Neddf Peilota 1987. Mae hyn yn gysylltiedig â derbyn bod gwladwriaethau yn gymwys i fod yn rhan o Gytundeb yr AEE. Fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd, nid yw'r diffiniad o Wladwriaeth AEE yn Neddf Peilota 1987 yn cynnwys gwladwriaethau ddaeth yn rhan o Gytundeb yr AEE wedi mis Mai 2003 pan gafodd y diffiniad ei gynnwys yn y Ddeddf.

Mae OS30A yn darparu y gall unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i'w drafod ar yr OS hwn. Penderfyniad y Prif Weinidog, oherwydd y nifer fawr o OSau oedd i'w cywiro, a'r amserlen gyfyng, oedd datblygu cyfaddawd i sicrhau y byddem yn delio yn brydlon â MCOSau sy'n gysylltiedig â Brexit, tra ein bod hefyd yn sicrhau y byddant yn dod i sylw'r Cynulliad, gan gydnabod bob amser, pe byddai unrhyw Aelod yn credu y dylai MCOS gael ei drafod gan y Cynulliad, mai hwy fyddai yn cyflwyno cynnig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mewn gohebiaeth â chi ym mis Awst, dywedodd y Prif Weinidog, gan bod rhan fwyaf o'r rhaglen i gywiro'r llyfr statud wedi ei gyflawni mwy neu lai, bod yr amser yn iawn i ail-edrych ar y dull hwn o weithio, a dychwelyd at y drefn arferol, sef Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cynigion ar gyfer MCOSau.

Byddaf felly yn cyflwyno cynnig i'w drafod ar ddechrau Ionawr i sicrhau bod y Cynulliad yn cael cyfle i ystyried OS cyn i'r 'cyfnod gweddïo' o 40 diwrnod ddod i ben, sy'n rhoi cyfle i ASau wrthod yr offeryn.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales